Powys County Council
Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 13 May 2020. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

Councillor: Kathryn S. Silk	**Tel:** 01874 730759
Ward: Bwlch	**Mobile:**
Shire: Brecknockshire	**Email:** cllr.kathryn.silk@powys.gov.uk
Group: Welsh Liberal Democrats	**Date:** September, 2020

Section 1: Role & Responsibilities

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
Committees & attendance

Powys Adoption Panel - I attended eight Panel meetings.

I served on the following outside organisations:
Member of Governing Body of Crickhowell High School including membership of the Staffing and Pay Committee
Brecon Beacons National Park Authority [BBNPA] /Powys County Council Joint Liaison Committee

Section 2: Constituency activity

I continue to work proactively with the local Community Council attending their monthly meetings to provide updates on County Council activities and maintaining regular contact with the community cllrs and the Clerk in relation to issues affecting the ward. During the course of the past year, local activity has been dominated by the effects of the road closure in Tretower for works to upgrade the storm drainage system, and the impact of the works on properties through the village. I have had considerable contact with the Welsh Government Minister and officials as well as the local AM to highlight residents' concerns.

As ever, planning matters remain a core feature of my activity, and I am in regular contact with officers from the National Park to address them.

Following Storm Dennis and more recently the lockdown as a result of Cononavirus I have been working with PCC officers, the Volunteer Bureau in Crickhowell and local self-help groups to help support residents.

I continue to be a periodic tweeter - @CllrKathrynSilk, a contributor to the Bwlch Coronavirus Facebook page, and instigator of the Cwmdu Covid Support WhatsApp group.

Section 3: Learning & Development

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
Member development & seminars

Section 4: Outside organisations and other activities

I am a Trustee of Peak (formerly Arts Alive Wales) an arts organisation based in Crickhowell and Crickhowell Volunteer Bureau.

I continue to attend a variety of local community events in the three villages during the course of the year including shifts on the Community Cafe at the Green Man Festival in August.

I am a Director of The Farmers Arms, Cwmdu Ltd a community-owned pub in Cwmdu. It continues to flourish providing a valuable focal point for the village.

Cyngor Sir Powys
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 13 Mai 2020. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Kathryn S. Silk	**Ffôn:** 01874 730759
Ward: Bwlch	**Ffôn symudol:**
Ardal: Sir Frycheiniog	**E-bost:** cllr.kathryn.silk@powys.gov.uk
Grŵp: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	**Dyddiad:** Medi 2020

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Mae manylion y Pwyllgorau a'r Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phrensenoldeb

Panel Mabwysiadu Powys – Mynychais wyth cyfarfod y Panel.

Gwasanaethais ar y cyrff allanol canlynol:
Aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Crughywel gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Staff a Chyflogau.
Cyd-bwyllgor Cyswllt Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Cyngor Sir Powys.

Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth

Rwy'n parhau i weithio'n flaengar gyda'r Cyngor Cymunedol lleol ac rwy'n mynychu eu cyfarfodydd misol i roi diweddariadau ar weithgarwch y Cyngor Sir. Yn ogystal, rwy'n cysylltu'n rheolaidd â'r cynghorwyr cymunedol a'r Clerc mewn perthynas â materion yn y ward. Mae cau'r ffordd yn Nhretŵr i wella'r system draenio storm wedi hawlio prif sylw fy ngweithgarwch yn y fro trwy'r flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, effeithiau'r gwaith ar y tai trwy'r pentref. Rwyf wedi cysylltu'n aml â Gweinidog Llywodraeth Cymru a swyddogion yn ogystal â'r Aelod Cynulliad lleol i dynnu eu sylw at bryderon trigolion.

Fel o'r blaen, mae cynllunio yn parhau i fod yn agwedd greiddiol o'm gwaith yn y ward. Rwy'n cysylltu'n rheolaidd â swyddogion o'r Parc Cenedlaethol i fynd i'r afael â materion yma.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Cyngor Sir Powys, Swyddfa'r Gwirfoddolwyr yng Nghrughywel a grwpiau hunan-gymorth lleol i helpu i gefnogi trigolion yn sgil Storm Dennis a'r cyfyngiadau symud yn dilyn Coronafeirws.

Rwy'n parhau i drydar o dro i dro - @CllrKathrynSilk. Rwy'n cyfrannu i dudalen Facebook Coronafeirws Bwlch a fi oedd symbylydd grŵp Cymorth COVID WhatsApp Cwmdu.

Adran 3: Dysgu a Datblygiad

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
Seminars a Datblygu Aelodau

Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill

Rwy'n un o ymddiredolwyr Peak (Arts Alive Wales gynt), sefydliad i'r celfyddydau a leolir yng Nghrughywel a Swyddfa Gwirfoddolwyr Crughywel.

Rwy'n dal i fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol yn y tri phentref trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys sifftiau yng Nghaffi Cymunedol Gŵyl y Dyn Gwyrdd ym mis Awst.

Rwy'n un o gyfarwyddwyr tafarn The Farmers Arms, Cwmdu Cyf. Tafarn sy'n eiddo i'r gymuned yng Nghwmdu yw hon ac mae'n parhau i ffynnu gan gynnig canolbwynt gwerthfawr i'r pentref.